COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 6ed o FEHEFIN 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair),Alan Lewis,Tyssul Evans, Margaret Rees, Linda Williams, Delyth Thomas, Geraint Rosser, Meic Bowen, a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.
Yn bresennol hefyd oedd y Cynghorwr Sir Meinir James.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Aled Williams, Tracey James a Caroline Williams.

2835 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd ac yn arbennig Geraint Rosser ar ôl tostrwydd a'r Cynghorwr Sir Meinir James.

2836 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 09/05/2022 fel rhai cywir.

2837 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Adroddwyd bod y mater wedi ei throsglwyddo i'r Adran Rheoli Adeiladu fel mater o frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2814 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2838 Salem, Pedair Heol - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2839 Banc Bwyd Pembre a Phorth Tywyn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200.

Cynghorwr Alan Lewis yn y gadair.

Cynghorwyr Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams a Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2840 Urdd Gobaith Cymru - Eisteddfod Sir Gaerfyrddin 2023 - Penderfynwyd danfon 3ydd cyfraniad o £1000 tuag at y Pwyllgor Apêl Leol.

Ian,Tyssul,Linda a Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans yn y gadair.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2841 Cyngor Sir Gar- Cynrychiolydd ar ran yr Awdurdod Llai – Corff Llywodraethwyr Ysgol y Fro – Enwebwyd y Cynghorydd Caroline Williams.

2842 Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch / Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Canmlwyddiant Parc Carwe - Derbyniwyd y gwahoddiad gyda diolch..

Ceisiadau Cynllunio

2843

a) Rhif y Cais - PL/03790 - Safle Tai Ffoslas - Materion wrth gefn - Penderfynwyd gofyn am gyfarfod gyda Pherchnogion Ffoslas.
b) Rhif y Cais - PL/04066 - The Oaks, Pedair Heol - Tŷ Annedd - Os ydy o fewn Cynllun Datblygu Pedair Hewl yna Dim Gwrthwynebiad.

.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2844 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2845 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai..Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2846 Parc Pontiets - Cafwyd adroddiad gan y Clerc ac wedi trafodaeth lwyr a chlir penderfynwyd ar y canlynol:
a) Mae rhan o waith gosod CCTV yn y Parc bron a'u chwblhau.
b) Peidio â gwneud unrhyw geisiadau am nawdd ariannol tuag at ffens yng nghefn y Parc tan ein bod yn derbyn adroddiad oddiwrth Grŵp Gwella Cymuned Pontiets,

2847 Diffibriliwr – Gobeithio y bydd y bocsys yn eu lle yn fuan iawn.

2848 Datganiad Llywodraethau Blynyddol.

Cynigwyd gan Alan Lewis ac eiliwyd gan Margaret Rees ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol am y flwyddyn 2021 – 2022.

2849 Gatiau Neuadd Meinciau - Penderfynwyd ein bod yn derbyn yr amcan brys o £120.00 yr un am y ddau Gat yn Neuadd Meinciau (Cyfanswm o £240.00) . Byddai costau eu gosod ar ben hyn.

2850 Ger Tŷ Mawr/Brynseilo Carwe - Penderfynwyd cysylltu, unwaith eto gydag Adran Tai Bro Myrddin ynglŷn â gosod enw ar y strydoedd hyn.

2851 Cyflymder Traffig yng Ngharwe - Penderfynwyd cysylltu â'r Heddlu ynglŷn a'r mater hwn.

2852 Aelod Ychwanegol ar y Cyngor – Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglyn ag Aelod ychwanegol yng Ngharwe.

2853 Deintydd – Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglyn a sefyllfa Deintyddion yn ardal Llangyndeyrn.

Cyfarfod nesaf:- 18fed o Gorffennaf 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……